

At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: 25 Ionawr 2023

Rhif Union: 01824706141

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 31 IONAWR 2023** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan cysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2022 (copi ynghlwm).

5 CYLLIDEB 2023/24 - CYNIGION TERFYNOL (Tudalennau 13 - 42)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Eiddo (copi ynghlwm).

6 CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR 2023/24 (Tudalennau 43 - 72)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Eiddo (copi ynghlwm).

7 AROLWG O AELODAU AR AMSER CYFARFODYDD (Tudalennau 73 - 84)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm).

8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR (Tudalennau 85 - 90)

Ystyried rhaglen waith i'r dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Arwel Roberts
(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Pete Prendergast (Is-
Gadeirydd)

Michelle Blakeley-Walker
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
Ellie Chard
Kelly Clewett
Ann Davies
Karen Edwards
Pauline Edwards
Gwyneth Ellis
James Elson
Chris Evans
Hugh Evans
Justine Evans
Bobby Feeley
Gill German
Jon Harland
Elen Heaton
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Hogg
Carol Holliday
Alan Hughes
Hugh Irving
Alan James

Delyth Jones
Paul Keddie
Diane King
Geraint Lloyd-Williams
Julie Matthews
Jason McLellan
Barry Mellor
Terry Mendies
Raj Metri
Win Mullen-James
Merfyn Parry
Gareth Sandilands
Peter Scott
Rhys Thomas
Andrea Tomlin
Cheryl Williams
David Williams
Elfed Williams
Eryl Williams
Huw Williams
Emrys Wynne
Mark Young

COPIAU I'R:

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Michelle Blakeley-Walker, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Kelly Clewett, Ann Davies, Karen Edwards, Pauline Edwards, Gwyneth Ellis, James Elson, Justine Evans, Gill German, Jon Harland, Elen Heaton, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Hugh Irving, Alan James, Delyth Jones, Paul Keddie, Diane King, Geraint Lloyd-Williams, Julie Matthews, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Merfyn Parry, Pete Prendergast (Is-Gadeirydd), Arwel Roberts (Cadeirydd), Gareth Sandilands, Peter Scott, Rhys Thomas, Andrea Tomlin, Cheryl Williams, Elfed Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Busnes a Llywodraethu (Swyddog Monitro)(GW);
Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Amgylchedd (TW); Rheolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (AL); Uwch Swyddog Cynllunio (LG); Cydlynnydd Cyfoethogi Addysg (DC); Rheolwr Asedau a Risg (TT); Swyddogion Gwesteiwr Zoom a Gweddarlledu (RTJ a NPH); a Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

Hefyd yn Bresennol – Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, Julia Hughes

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr)
Chris Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Raj Metri a/ac David Williams

Yn y fan hon cafwyd munudau o dawelwch i'r diweddar Gynghorydd Brian Blakeley a'r cyn-Gynghorydd y diweddar Rhys Webb.

Talodd y Cadeirydd ac Arweinwyr y Grwpiau deyrnged i'r diweddar Gynghorydd Brian Blakeley. Roeddent yn cydnabod ei foeseg waith a'i ymroddiad i'r gymuned yr oedd yn Gynghorydd lleol iddi a hefyd y gwaith ar gyfer y sir. Roedd y diweddar Gynghorydd Blakeley wedi bod yn Gynghorydd uchel ei barch a byddai colled fawr ar ei ôl.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

- (i) Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau ei fod wedi mynychu digwyddiad yng Nghaerdydd i gynrychioli Cyngor Sir Ddinbych (CSDd). Roedd CSDd wedi cael cydnabyddiaeth genedlaethol i'w hymrwymiad i'r Lluoedd Arfog,

personol, gorffennol a phresennol, ynghyd â'u teuluoedd. Cyflwynodd y Cadeirydd y wobwr i'r Aelod Arweiniol dros Strategaeth Gorfforaethol, Polisi a Chydraddoldeb, y Cynghorydd Julie Matthews. Cydnabu'r Cynghorydd Matthews waith caled staff CSDd yn cefnogi'r lluoedd arfog yn Sir Ddinbych. Diolchodd y Cynghorydd Matthews hefyd i'r Cadeirydd, y Cynghorydd Arwel Roberts am fynychu'r digwyddiad ac am dderbyn y wobwr ar ei rhan.

- (ii) Cadarnhaodd y Cadeirydd mai un o'i Elusennau tra yn ei swydd oedd "Achub y Plant". Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn gweithio gyda'r Cydlynnydd Cyfoethogi Addysg, Sarah Dixon, a'u bod i fynychu ysgolion yn Sir Ddinbych i lansio Cystadleuaeth Celf Ysgolion Sir Ddinbych o'r enw "Beth Syn Eich Gwneud Chi'n Hapus" "Beth Sy'n Eich Gwneud Chi'n Hapus". Byddai'r gystadleuaeth ar gyfer plant dan 12 oed. Roedd Hyb yr NSPCC ym Mhrestatyn hefyd wedi bod yn ymwneud â'r Gystadleuaeth Gelf ac roedd CSDd yn hynod falch o gefnogi NSPCC Gogledd Cymru. Byddai'r celf yn cael ei arddangos mewn llyfrgelloedd ar draws y sir yn ystod wythnos Iechyd Meddwl Plant (6 – 12 Chwefror 2023). Byddai'r enillydd cyffredinol yn ennill gweithdy rhad ac am ddim yn yr ysgol gydag artist Cymreig blaenllaw. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 27 Ionawr 2023.

4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a gyflawnwyd gan y Cadeirydd ar gyfer y cyfnod 1 Hydref 2022 i 1 Rhagfyr 2022 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD** derbyn y rhestr o ymrwymïadau dinesig a gyflawnwyd gan y Cadeirydd.*

5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2022.

***PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2022 fel cofnod cywir.*

6 CYNLLUNIAU AMDDIFFYN YR ARFORDIR CANOL Y RHYL A CHANOL PRESTATYN

Ar y pwynt hwn, hysbysodd y Swyddog Monitro yr aelodau bod Atodiadau 4 a 5 yn Gyfrinachol Rhan II ac os oedd trafodaethau i gynnwys yr Atodiadau hynny byddai angen i'r cyfarfod symud i Ran II.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros yr Amgylchedd a Chludiant, y Cynghorydd Barry Mellor, adroddiad Cynlluniau Amddiffyn Arfordirol Canol y Rhyl a Chanol Prestatyn (a gylchlythyrwyd yn flaenorol).

Oherwydd lefel yr ymrwymiad ariannol sydd ei angen ar y cyngor, gofynnir am gymeradwyaeth i symud ymlaen i gam adeiladu'r ddau gynllun.

Adeiladwyd yr amddiffynfeydd arfordirol presennol ar hyd ffryntiad Cwrs Golf y Rhyl tua 70 mlynedd yn ôl ac roeddent mewn cyflwr gwael. Oherwydd cyflwr yr amddiffynfeydd arfordirol, roedd y cyngor am sicrhau eu bod yn cael eu huwchraddio ymhell o flaen amser. Pe bai'r amddiffynfeydd presennol yn methu yn y lleoliad hwn, byddai'r perygl llifogydd i dros 2,000 o eiddo yn ardal Prestatyn yn cynyddu'n sylweddol.

Roedd ardal ganolog y Rhyl (rhwng Splash Point a Drift Park) yn cael ei hamddiffyn ar hyn o bryd gan amddiffynfeydd môr a oedd yn dirywio. Roedd y Cyngor am sicrhau bod amddiffynfeydd presennol yn cael eu hailosod ymhell o flaen amser, er mwyn amddiffyn y rhan boblogaidd hon o arfordir y Rhyl rhag llifogydd ac erydu arfordirol. Pe bai'r amddiffynfeydd presennol yn methu yn y lleoliad hwn, byddai'r perygl llifogydd i dros 600 eiddo yn ardal y Rhyl yn cynyddu'n sylweddol.

Roedd y cynlluniau arfaethedig wedi'u nodi yn yr adroddiad a'u crynhoi gan y Cynghorydd Mellor.

Roedd Achos Busnes llawn ar gyfer y ddau gynllun wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru (LIC) ym mis Tachwedd 2022. Roedd y Cyngor wedi gweithio'n agos gyda LIC drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynlluniau ac yn rhagweld y byddai cymeradwyaeth LIC yn cael ei rhoi erbyn diwedd mis Rhagfyr 2022.

Roedd asesiad o'r effaith ar garbon wedi'i gynnal a ddangosodd, dros oes y cynllun, fod yr effeithiau carbon yn debyg iawn i'r buddion carbon, a oedd yn golygu bod y cynllun yn garbon niwtral.

Mae'r Cyngor wedi bod yn rhan o drafodaethau a thrafodaethau cadarnhaol gyda busnesau y mae'r cynllun yn effeithio arnynt.

Cyfanswm cost y ddau gynllun oedd tua £92m. Roedd 85% i'w ariannu gan Lywodraeth Cymru fel cymorth grant, a dalwyd i'r Cyngor dros gyfnod o 25 mlynedd drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

Yn ystod y trafodaethau, codwyd y pwyntiau a ganlyn:-

- Soniodd aelodau lleol am y difrod i drigolion yn ystod y llifogydd yn y blynyddoedd blaenorol a chroesawyd y cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd.
- Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau bod y cyfrifiad o'r modelu ar gyfer y cynllun yn gywir ac y byddai'n lliniaru llifogydd yn ardaloedd Canol y Rhyl a Phrestatyn.
- Cadarnhawyd y byddai cynrychiolwyr Balfour Beattie yn monitro a rheoli'r prosiectau ynghyd ag ymgynghori â swyddogion. Cadarnhawyd y byddai'r ddau gynllun yn selio arfordir Sir Ddinbych.
- Byddai'r cyfnod adeiladu yn digwydd dros gyfnod o dair blynedd. Roedd deialog parhaus gyda'r trigolion i'w hysbysu o'r gwaith sy'n cael ei wneud, lefelau sŵn a bioamrywiaeth ac ati. Roedd cyfarfod cyhoeddus hefyd wedi'i gynnal yn ddiweddar i sicrhau bod trigolion lleol yn cael eu hysbysu'n llawn.
- Byddai Bwrdd Prosiect yn cyfarfod yn fisol i fonitro cynnydd y cynllun.
- Byddai mynediad i'r traeth yn cael ei wella yn dilyn adeiladu'r cynllun.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad ac am y gwaith yr oeddent wedi'i wneud.

CYNIGWYD gan y Cynghorydd Barry Mellor, EILIWYD gan y Cynghorydd Alan James

PENDERFYNWYD –

- Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi ystyried cynnwys yr Asesiadau Effaith Llesiant ar gyfer pob cynllun (ynghlwm yn Atodiad 3a ac Atodiad 3b).
- Bod y Cyngor yn cefnogi'r cynnig i symud cynllun Amddiffyn Arfordirol Canol y Rhyl yn ei flaen i'r cam adeiladu, gan ddefnyddio'r model cyllid cymorth grant a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ac yn cytuno i ddarparu 85% o gost benthyca i ariannu'r cynllun.
- Bod y Cyngor yn cefnogi'r cynnig i symud cynllun Amddiffyn Arfordirol Canol Prestatyn ymlaen i'r cam adeiladu, gan ddefnyddio'r model cyllid cymorth grant a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ac yn cytuno i ddarparu 85% o gost benthyca i ariannu'r cynllun.
- Bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i Fwrdd Prosiect Amddiffyn yr Arfordir i gyflawni'r cynlluniau.

**Ar y pwynt hwn (11.15 a.m.), cafwyd egwyl o 20 munud.
Ailgynullodd y cyfarfod am 11.35 a.m.**

**7 CYTUNDEB CYFLAWNI DIWYGIEDIG Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL
NEWYDD**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Lleol a Chynllunio, y Cynghorydd Win Mullen-James, y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig ar gyfer yr adroddiad Cynllun Datblygu Lleol newydd (a gylchlythyrwyd yn flaenorol).

Roedd yr adroddiad yn nodi'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) 2018 – 2033 newydd. Roedd y Cytundeb Cyflawni yn nodi'r amserlen ar gyfer symud y CDLI newydd ymlaen i'w fabwysiadu ac yn amlinellu gyda phwy, sut a phryd y byddai'r Cyngor yn ymgynghori. gwahanol gamau paratoi'r CDLI. Roedd angen Cytundeb Cyflenwi diwygiedig oherwydd oedi yn yr amserlen y cytunwyd arni yn sgil pandemig Covid-19; oedi wrth gyhoeddi polisi a chanllawiau perygl llifogydd ac etholiadau lleol. Roedd angen i'r Cabinet a'r Cyngor gymeradwyo CC diwygiedig ac yna ei gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w gytuno.

Roedd y Grŵp Cynllunio Strategol a'r Cabinet wedi argymhell bod y CC diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo a'i gyflwyno wedyn i Lywodraeth Cymru.

Dywedodd yr Uwch Swyddog Cynllunio wrth yr aelodau fod y CC yn gosod yr amserlen ar gyfer paratoi'r CDLI a'r trefniadau ymgynghori. Roedd y Cytundeb Cyflenwi presennol wedi'i gymeradwyo ym mis Mai 2018. Roedd y Cytundeb Cyflawni diwygiedig yn gam allweddol wrth symud y CDLI newydd yn ei flaen ac ni ellid cyflawni unrhyw gamau ymgynghori ffurfiol pellach nes bod y CC diwygiedig wedi'i gymeradwyo.

Dywedodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Jason McLellan fod llawer iawn o drafod wedi digwydd yn ystod y Cabinet.

CYNIGWYD gan y Cynghorydd Peter Scott, ac EILIWYD gan y Cynghorydd Karen Edwards.

PENDERFYNWYD –

- *Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaeth.*
- *Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig (CC) yn Atodiad 1 a'i gyflwyno wedyn i Lywodraeth Cymru.*
- *Bod y Cyngor yn awdurdodi'r Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Lleol a Chynllunio mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad i gytuno ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen yn y dyfodol i Gytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych.*

8 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, Julia Hughes, Adroddiad Blynyddol Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau (a gylchlythyrwyd yn flaenorol)

Roedd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau yn ymdrin â'r flwyddyn galendr rhwng Ionawr a Rhagfyr 2021. Roedd yr adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod pan oedd y Cadeirydd presennol (Julia Hughes) a gyflwynodd yr adroddiad hwn yn Is-Gadeirydd ac aelodaeth y Pwyllgor yn ymwneud â thymor diwethaf y Cyngor. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar waith y pwyllgor bob blwyddyn a'i ganfyddiadau a'i arsylwadau. Roedd hyn yn rhan o ymdrech y Pwyllgor i godi safonau ymddygiad moesegol a chydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

Roedd rheoliadau'r Pwyllgor Safonau yn nodi na fyddai maint y Pwyllgor yn llai na 5 ond dim mwy na 9 Aelod gyda'r Pwyllgor. Yn Sir Ddinbych roedd y Pwyllgor Safonau yn cynnwys 2 Gynghorydd Sir, 4 Aelod Annibynnol (cyfetholedig), ac 1 Aelod Cyngor Cymuned, felly 7 aelod. Ni chafodd y mwyafrif o'r Aelodau eu hethol, ond cawsant eu recriwtio o blith aelodau'r cyhoedd yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth Safonau yng Nghymru. Hefyd, dim ond pan fyddai o leiaf hanner yr Aelodau a oedd yn bresennol yn aelodau llewg annibynnol y gallai'r Pwyllgor fod â chworwm.

Yn ystod 2021 comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o'r fframwaith moesegol yng Nghymru – Adolygiad Penn, a oedd yn edrych i weld a oedd y fframwaith yn parhau i fod yn addas at y diben. Y casgliad cyffredinol oedd bod y fframwaith yn addas at y diben ac nad oedd angen ei newid yn sylweddol. Argymhellwyd rhai mân addasiadau a diwygiadau i gynnwys ystyriaeth o rôl Pwyllgorau Safonau o ran cefnogi cynghorau cymuned a phwerau ychwanegol y gallai fod eu hangen, nid lleiaf goblygiadau adnoddau wrth ddarparu cymorth o'r fath. Mae'n werth nodi bod yr adolygiad wedi amlygu pryderon difrifol ynghylch maint y bwlio, diffyg parch neu ymddygiad aflonyddgar yn gyffredinol gan rai aelodau mewn cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru.

Hwn oedd cam cyntaf yr adolygiad gyda'r ail gam yn canolbwyntio ar weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i gyflawni unrhyw newidiadau i'r fframwaith safonau moesegol a oedd yn cael eu hystyried yn briodol ac yn angenrheidiol gan Weinidogion Cymru yng ngoleuni canfyddiadau ac argymhellion y cam cyntaf. o'r adolygiad.

Yn dilyn crynodeb o'r Adroddiad Blynyddol, diolchodd y Cadeirydd i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau am ei chyflwyniad a'i gwaith.

CYNIGWYD gan y Cynghorydd Hugh Irving ac EILIWYD gan y Cynghorydd Paul Keddie.

PENDERFYNWYD bod yr Aelodau'n nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Busnes a Llywodraethu, Raglen Gwaith Cychwynnol y Cyngor ynghyd â Rhaglen Gwaith Cychwynnol Gweithdy'r Cyngor (a gylchredwyd yn flaenorol).

Roedd cyfarfodydd nesaf y Cyngor i'w cynnal ar 31 Ionawr 2023 a 28 Chwefror 2023.

Roedd cyfarfod nesaf Gweithdy'r Cyngor i'w gynnal ar 16 Rhagfyr 2022.

PENDERFYNWYD cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith Cychwynnol Gweithdy'r Cyngor a'r Cyngor.

GORFFENNA Y CYFARFOD AM 12:10 P.M.

Adroddiad i'r	Cyngor Sir
Dyddiad y cyfarfod	31 Ionawr 2023
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cyngorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol
Awdur yr adroddiad	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Teitl	Cyllideb 2023/24 – Cynigion Terfynol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn nodi goblygiadau Setliad Llywodraeth Leol 2023/24 a chynigion i gwblhau'r gyllideb ar gyfer 2023/24.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys y gellir ei chyflawni cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a gosod y lefel o Dreth y Cyngor o ganlyniad i ganiatáu i filiau gael eu hanfon at breswylwyr.

2.2 Darparu trosolwg o broses y gyllideb ac effaith y Setliad Llywodraeth Leol a chymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2023/24, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

3. Beth yw'r Argymelliadau?

3.1 Nodi effaith y Setliad Llywodraeth Leol Drafft 2023/24.

3.2 Fod y Cyngor yn cefnogi'r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1, ac y manylir arnynt yn Adran 4, ac yn eu hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn llunio'r gyllideb yn derfynol ar gyfer 2023/24.

3.3 Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnydd ar gyfartaledd o 3.8% arfaethedig yn Nhreth y Cyngor.

3.4 Bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb gan hyd at £500,000 os oes yna symud rhwng y ffigyrau setliad drafft a therfynol er mwyn gallu gosod Treth y Cyngor yn amserol.

3.5 Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Derbyniodd y Cyngor y Setliad Llywodraeth Leol Drafft ar gyfer 2023/24 ar 14 Rhagfyr ac arweiniodd at setliad cadarnhaol o 8.2% oedd yn cymharu â safle cyfartalog Cymru o 7.9%. Disgwylir y Setliad Terfynol ar ddechrau mis Mawrth ond mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi nodi na fydd yna lawer o newidiadau. O fewn y ffigwr a gyhoeddwyd, mae LIC wedi datgan y canlynol:

- Yr holl godiadau cyflog ar gyfer swyddi addysgu a swyddi nad ydynt yn rhai addysgu, sydd wedi'u cynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw.
- Y cyfrifoldeb i dalu Cyflog Byw Gwirioneddol ein Gofal Cymdeithasol ein hunain a'r Gofal Cymdeithasol yn y sector preifat.

4.2 Mae'r setliad drafft yn cynnwys cynnydd bychan yng nghodiadau setliad cyfartalog dangosol o 3.0% ar gyfer 2024/25. Er y caiff hyn ei groesawu'n fawr o safbwynt cynllunio, mae'n dangos y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd dros y blynyddoedd nesaf.

4.3 Nid oedd unrhyw 'drosglwyddiadau i mewn' wedi'u cynnwys yn y setliad drafft.

4.4 Mae cynigion terfynol i gydbwysu cyllideb 2023/24 wedi eu dangos yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn Atodiad 1. Y prif feysydd twf a phwysau yw:

- Pwysau cyflog (gan gynnwys effaith net y gostyngiad mewn Yswiriant Gwladol) o £3.269 miliwn
- Chwyddiant pris ac ynni o £2.897 miliwn - gan gynnwys amcangyfrifon cynnydd ynni diweddaraf a dderbyniwyd ar 22 Rhagfyr (cynnydd o £2.6 miliwn)
- Ardoll y Gwasanaeth Tân o £535,000
- Lwfans ar gyfer cynnydd yn y Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor o £350,000
- Pwysau chwyddiant ysgolion yn cael eu cydnabod yn swm o £3.936 miliwn
- Pwysau demograffig ysgolion o £310,000

- £8.187 miliwn i gydnabod pwysau'r galw a'r rhagolygon mewn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol fel rhan o strategaeth hirdymor y cyngor i reoli cyllidebau gofal, yn ogystal â chydabod y rhaglen er mwyn sicrhau y telir y Cyflog Byw Gwirioneddol i'r holl staff gofal
- £2.700 miliwn i gydnabod y pwysau presennol mewn Addysg a Gwasanaethau Plant sy'n ymwneud â Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir ac Adennill.
- £1.000 miliwn o bwysau i fodloni'r costau cynyddol o fewn Cludiant i'r Ysgol, sy'n dod yn amlwg yn y gweithdrefnau monitro misol
- Cynnydd mewn costau yswiriant mewn perthynas ag effaith chwyddiant o £150,000
- Buddsoddiad mewn blaenoriaethau yn dod i £0.500 miliwn:
 - Buddsoddiad pellach yn y Prosiect Di-Garbon o £134,000 ar gyfer staff ychwanegol i gyflawni'r gwaith angenrheidiol. Mae'r rhaglen yn cynnig defnyddio'r dyraniad cyfredol o fenthycu darbodus er mwyn cyllido gwarant cyfalaf yn 23/24 yn sgil tanwariant dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
 - Buddsoddiad cynyddol yn y Rhaglen Gyfalaf Priffyrdd fel y cynigir gan y Cyngor (£4 miliwn o gyfalaf) – mae angen amcangyfrif o £235,000 yn y Gyllideb Cyllid Cyfalaf
 - Mae hyn yn gadael £131,000 y cynigir ei ddefnyddio yn y flwyddyn i barhau i ariannu prosiectau cyfalaf yn ystod y flwyddyn (e.e. y rhai a ddygwyd ymlaen gan yr ymarfer Sganio'r Gorwel neu a ddaw allan o'r Cynllun Cyfalaf) - Byddai £131,000 yn golygu buddsoddiad cyfalaf o £2.2 miliwn.
- Pwysau anstrategol o £1.282 miliwn ar wasanaethau – pwysau a gofynion ar gyfer buddsoddiadau a nodwyd gan y gwasanaethau eu hunain ac a grynhoir yn Atodiad 2.

4.5 Mae'r pwysau a nodwyd uchod yn dod i gyfanswm o £25.116 miliwn. Byddai angen setliad drafft o tua 14.5% er mwyn ariannu'r pwysau hyn i gyd. Mae'r setliad net +8.2% yn cynhyrchu £14.231 miliwn o refeniw ychwanegol gan adael bwllch cyllido o £10.885 miliwn. Mae'r eitemau canlynol wedi eu cynnwys yn y cynigion er mwyn pontio'r bwllch hwnnw:

- Mae arbedion yn y Gyllideb Ariannu Cyfalaf yn dod i £1.067 miliwn - nid yw'r rhain yn adlewyrchu gostyngiadau yn y rhaglen gyfalaf ond yn hytrach cynnydd yn y defnydd o arian parod ac oedi mewn rhai prosiectau.

- Arian at Raid Corfforaethol mewn perthynas â'r elfen heb ei ddefnyddio o'r Arian at Raid Covid a roddwyd i'r neilltu fel rhan o'r broses gyllidebol y llynedd, yn dod i £1.200 miliwn.
- Mae effaith yr adolygiad actiwaraid teirblwydd o Gronfa Bensiynau Clwyd yn golygu fod y Cyngor bellach mewn sefyllfa o arian dros ben yn hytrach na diffyg sylweddol sydd angen ei dalu. Mae hyn wedi arwain at arbedion o £3.828 miliwn.
- Mae'r arbedion o ddod â'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau yn ôl yn fewnol bellach wedi'u cadarnhau a gall £300,000 arall gael ei ryddhau.
- Gofynnwyd i wasanaethau ganfod arbedion/effeithlonrwydd o 1% ac fe ganfuwyd arbedion o £961,000 fel y crynhoir isod (a'i gynnwys yn llawn yn Atodiad 3):
 - Mae Cyllidebau Incwm Ffioedd a Thaliadau wedi bod yn destun chwyddiant yn unol â'r polisi Ffioedd a Thaliadau a gytunwyd sy'n cynyddu incwm allanol o £423,000.
 - Mae arbedion yn cynnwys elfen o dâl gwasanaeth yn dod i £371,000.
 - Mae gostyngiadau cyllideb technegol nad yw'n cael unrhyw effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth yn dod i £167,000.
- Hefyd gofynnwyd i ysgolion gynllunio ar gyfer arbedion effeithlonrwydd o 1% sy'n dod i £816,000.
- Argymhellir bod Treth y Cyngor yn cynyddu o 3.8% a fydd, ynghyd â mân newidiadau i sylfaen y Dreth Gyngor, yn creu refeniw ychwanegol o £2.713miliwn. Mae'r lefel hwn ar ochr isaf y cynnydd dangosol ar draws Cymru. Mae hefyd yn is na'r cyfartaledd o 4.35% dros y pedair blynedd ddiwethaf.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheolaeth effeithiol o gyllidebau'r cyngor a chyflawni strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni yn sail i weithgareddau ym mhob maes. Mae'r cynigion yn cynnwys dyraniadau i barhau i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nodir manylion yn Adran 4.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o'r Effaith ar Les?

Mae Aseidiadau o Effaith ar Les o ran cynnydd yn Nhreth y Cyngor wedi'u cynnwys yn Atodiad 5.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Arwain Strategol, cyfarfodydd Briffio'r Cabinet, Arweinwyr Grŵp a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllidebau Ysgolion wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy'r flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nod y broses gyllidebol yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Mae'r cynigion yn yr adroddiad hwn yn cynnig dull cytbwys sy'n ystyried egwyddorion proses y gyllideb newydd:

- Anelu i gydnabod ac unioni pwysau o fewn blwyddyn a rhagweld pwysau gwasanaeth gymaint â phosibl er mwyn datblygu cadernid.
- Sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu herio i gyflawni gwasanaethau effeithiol, ond i geisio lleihau effaith cynigion ar ddefnyddwyr gwasanaeth a staff.
- Cadw cynnydd yn Nhreth y Cyngor mor isel ag sy'n ymarferol bosibl.
- Cyfyngu'r defnydd o Arian sydd ond yn gohirio'r angen i nodi arbedion.
- Cynnal cyllid ar gyfer blaenoriaethau corfforaethol.

9.5 Yn sgil dyddiad hwyr iawn ar gyfer y Setliad Terfynol, argymhellir bod y Cabinet a'r Cyngor yn dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb gan hyd at £500,000. Mae LIC wedi dynodi nad yw'n debygol y bydd unrhyw newidiadau materol, fodd bynnag mae'n synhwyrol cael cynllun wrth gefn wedi'i gytuno ymlaen llawn.

9.4 Os nad yw'r cynigion yn yr adroddiad hwn yn cael eu derbyn, mae'n rhaid cyflwyno cynigion eraill i gydbwyso'r gyllideb.

10. Beth yw'r peryglon ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

Mae proses y gyllideb ynddi ei hun yn fesur ar gyfer rheoli risg, gyda'r nod o nodi, asesu a chytuno ar gynigion y gyllideb mewn modd sydd wedi ei gynllunio ac sy'n amserol. Byddai methu â chytuno ar y cynigion hyn heb gynnig cynigion posibl eraill, yn peryglu cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.

	2022/23 £'000	2023/24 £'000	2024/25 £'000	2025/26 £'000
Funding				
Revenue Support Grant & NNDR (RSG)	173,640	187,871	193,507	197,764
Council Tax	60,055	62,768	65,720	68,668
SSA / Budget Requirement	233,696	250,639	259,227	266,433
Use of Balances				
Total Funding	233,696	250,639	259,227	266,433
Expenditure				
Base Budget	216,819	233,696	250,640	265,590
Inflation / Pressures:				
Pay	3,000	3,269	4,000	1,019
Price - targeted		2,897	400	100
Price	250	150	150	150
CTRS	350	350	350	350
Fire Levy	321	535	100	100
Income Inflation	(120)		(250)	(250)
Social Services	3,127	8,187	2,000	1,000
Childrens Service	750	2,700	2,000	1,000
Other Service Pressures	500			
Covid Contingency	1,991	(1,000)		
CJCs	300	(200)		
School Transport		1,000		
Schools Inflation	3,769	3,936	4,000	2,000
Schools Demography Adjustment	606	310	700	700
Other known items:				
Investment in Priorities 1	81			
Investment in Priorities 2	1,200	500	500	700
Service Non-Strategic Pressures	1,111	1,282	1,000	1,500
Transfers into/out of Settlement	275			
New Responsibilities				
EFFICIENCIES / SAVINGS:				
Capital and Corporate Savings		(1,067)		
Pensions Triennial Review		(3,828)		
Service Efficiencies - 1%	(634)	(961)		
Service Savings - Projects		(300)		
Schools Efficiency Target		(816)		
Total Expenditure	233,696	250,640	265,590	273,959
Funding Shortfall / (Available)	0	0	6,362	7,526
Annual increase/(decrease) in shortfall	(0)	0	6,362	1,164
Key Assumptions				
Settlement %	9.20%	8.20%	3.00%	2.20%
Council Tax Increase % Band D	2.95%	3.80%	3.80%	3.80%

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

NON-STRATEGIC PRESSURES

REF	SERVICE	TITLE	DETAILED DECSRIPTION	CUMULATIVE BUDGET AGREED 2023/24 £
C&C-P02	Communications and Customers	Blue Badge Support	20 hours - Libraries Grade 5 /37 hours - Grade 2 @ Contact Centre: originally £64K now £49K. Covered under slippage this year, but pressure for next year	49,000
C&C-P06	Communications and Customers	Youth Service	We have seen a significant increase in personal support and targeted 1 to 1 interventions with young people especially after Covid and an increase in more complex cases being referred to the service. To reduce pressure on the team's waiting list we would need an increase in staffing to reduce the current waiting list of 72 young people. 2X Full Time youth workers with all included costs including programme costs would be £84,000 per year (with recruitment April 23-June 24 would be an overall cost of £112,000) which could reduce the current waiting list by approx. 60 young people by the end of June 2024.	84,000
ECS-P01	Education and Children's Service	Sensory Service	Tri sensory service WCBC, DCC & FCC. FCC are host authority original cost £175k, increased to £194k	19,000
BIM-P01	Business Improvement and Modernisation	Internal Audit Structure	As Audit Wales have reduced their performance auditing work for DCC it is vital that we have an Internal Audit structure which can repond to this and maintain a lower level of input from Audit Wales . The team requires an additional Senior Auditor who is able to work independently and therefore enable the team to succeed in delivery.	8,700
BIM-P03	Business Improvement and Modernisation	Strategic Planning & Performance Team	1 FTE @ G9. With an increase in Corporate Plan themes from 5 to 9, there will be added work required for this team to provide strategic support to boards/groups, develop and monitor performance, write reports, etc.	17,581
LHR&D-P01	Legal, HR and Democratic Services	Electoral and Election Services	A re-structure of the existing unit to add sufficient capacity to sustainably support electoral and election services in Denbighshire.	34,302
LHR&D-P02	Legal, HR and Democratic Services	Legal services	Trainees have applied for and been successful in securing permanent positions that we have been struggling to fill. We wish to submit a pressure to continue with this strategy to recruit 2 further trainees. These are 2 year fixed term posts.	64,000
LHR&D-P03	Legal, HR and Democratic Services	HR	The HR software system, I-Trent has a cloud based module for onboarding which would make it easier for applicants and succesful candidates to self serve. This would make the process easier for managers and would relieve some oressure in the HRA team that currently has to provide significant support to the process.	23,000
F&P-P01	Finance and Property	Property: Building Maintenance Revenue Budgets.	Increased construction material and labour costs impacting on building maintenance budgets. Costs have been increasing at unprecedented rates since Coved/Brexit.	228,000
HES-P01	Highways and Environmental Services	Highways	Increased demand has out-stripped available resources in highways	196,312
HES-P02	Highways and Environmental Services	Streetscene	Increased demand has out-stripped available resources for public realm and grounds maintenance functions	110,258
HES-P03	Highways and Environmental Services	Waste	Increased demand has out-stripped available resources in the Waste and Recycling Service	58,359
HES-P04	Highways and Environmental Services	School Catering and Cleaning	Increased revenue pressures and demands on the service realting to rollout of Universal Primary Free School Meals programme	288,000
PPP-P07	Planning and Public Protection	Food Safety - EHO Officer (NB Last Years Bid accepted in principle)	Previously EU grant funded post - funding running out in 23/24	48,500
PPP-P08	Planning and Public Protection	Bodelwyddan Country Park (NB Last Years Bid accepted in principle)	Revenue capacity to manage the Park - cash used in 22/23	52,537
				1,281,549

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

1% EFFICIENCY SAVINGS						
REF	SERVICE	TITLE	Description	Category	SAVING 2023/24 £	
C&C-E01	Communications and Customers	Library New Income Stream	New SLA with Grwp Llandrillo Menai for use of Library Buildings for community teaching	Fees and Charges	18,000	35,000
C&C-E02	Communications and Customers	Library Income Target increase	Work to improve income from hosting external events in Libraries	Fees and Charges	3,000	
C&C-E03	Communications and Customers	Design Income	Increase in fee income from services using the corporate Design and Print Framework	Fees and Charges	1,000	
C&C-E04	Communications and Customers	Tourism Savings	Reduce number of face-to-face Tourism Forums to one per year.	Service Change	5,000	
C&C-E05	Communications and Customers	Major Events Budget Savings	Reserve now held corporately with no annual contribution required	Technical Budget Reduction	2,000	
C&C-E06	Communications and Customers	Youth Service Savings	Reduce programme costs budget across the County	Service Change	6,000	
ECS-E01	Education and Children's Service	Childrens: Family Resource Centre relocation	Property savings from transferring services from the Familt Resource Centre at Bedford Street Rhyl to vacant space within the Oaktree Centre which is a more child focussed environment that also has the added benefit of parking and a reception area (which Bedford Street does not have) and will mitigate lone working & health and safety issues for the staff members.	Service Change	25,604	122,896
ECS-E02	Education and Children's Service	Childrens: Childcare costs review	Increase of Childcare Fees at the Oaktree which have not been reviewed since September 213 despite rapidly increasing costs. The fees will still be the lowest in the county and still include a hot meal. 34% of children are fully grant funded, with a further 16% part funded.	Fees and Charges	20,000	
ECS-E03	Education and Children's Service	Childrens: Budget reduction Direct Payments.	The budget has underspent over the last few years. This reduction is based on current spending requirements so the budget is no longer required. If provision increases in future years the service will submit a service pressure to cover the costs.	Technical Budget Reduction	20,000	
ECS-E04	Education and Children's Service	Education: Review of Service underspends	Budgets have been reviewed and small areas of underspend identified. In previous years these have been used to offset overspends - however pressures have now been recognised in the budget proposals	Technical Budget Reduction	57,292	
HES-E01	Highways and Environmental Services	Catering and Cleaning	Increased income from school catering and public convenience services	Fees and Charges	25,500	206,700
HES-E02	Highways and Environmental Services	Highways	Increased income from streetworks charges along with straffing restructure	Fees and Charges	26,000	
HES-E03	Highways and Environmental Services	Waste	Increased income from garden waste, bulky waste and trade waste services. Review of HRC waste treatment cost.	Fees and Charges	102,200	
HES-E04	Highways and Environmental Services	Streetscene	Increased income from Cemeteries and roundabout sponsorships	Fees and Charges	18,000	
HES-E05	Highways and Environmental Services	Street Lighting	Increased income from external work along with savings from reduction in service fleet requirements	Fees and Charges	20,000	
HES-E06	Highways and Environmental Services	Fleet and Service Improvement	Increased income from external customers	Fees and Charges	15,000	
LHR&D-E01	Legal, HR and Democratic Services	Legal Services income	Review of fees and charges for externally funded legal work	Fees and Charges	5,000	25,000
LHR&D-E02	Legal, HR and Democratic Services	Registrars Fee income	Review of discretionary fees and charges for registrars' services such as weddings etc.	Fees and Charges	5,000	
LHR&D-E03	Legal, HR and Democratic Services	Service Wide	Budget alignment exercise	Technical Budget Reduction	15,000	
PPP-E01	Planning and Public Protection	Increased parking tariffs	Increased tariffs at Loggerheads, Moel Famau and Llantysilio	Fees and Charges	50,000	103,000
PPP-E02	Planning and Public Protection	Plas Newydd - Admissions	Increased admission price for adults at Plas Newydd to £7	Fees and Charges	1,500	
PPP-E03	Planning and Public Protection	Price increases Plas Newydd shop and tea rooms	10% increase in pricing	Fees and Charges	7,500	
PPP-E04	Planning and Public Protection	Management Budget Efficiency	Savings already achieved in year	Technical Budget Reduction	14,000	
PPP-E05	Planning and Public Protection	Increased Building Control Fees	Income has increased through an increase in fees and also take up of the service	Fees and Charges	30,000	

REF	SERVICE	TITLE	Description	Category	SAVING 2023/24 £	
F&P-E01	Finance and Property	Efficiencies within Property	A number of small efficiencies already achieved in year - budget now held in management codes	Technical Budget Reduction	13,500	59,000
F&P-E02	Finance and Property	Finance Budget Re-alignment	Re-alignment following bringing in of Civica and changes to staffing arrangements due to retirements	Technical Budget Reduction	45,500	
CSS-E02	Community Support Services	Right Sizing Care and Support	Review existing packages of care through 'right-sizing' e.g. reducing the number of double-handed care calls and increasing our use of Micro-Providers and volunteers.	Service Change	327,717	382,717
CSS-E03	Community Support Services	Review of Telecare Charging	The monthly fee for Telecare has remained static for a number of years, a review of the costs and monthly charges will be completed, a rise from £15 to £17 per month for example will generate additional income of £55K	Fees and Charges	55,000	
BIM-E01	Business Improvement and Modernisation	Increase in daily recharge rate for Project Management	The daily recharge rate for Corporate Project Management has not increased in quite a number of years. It is proposed to increase the rate from £250 to £284 per day. This daily rate will support the team of 7 PMs plus the Lead Project Manager.	Fees and Charges	18,000	27,000
BIM-E02	Business Improvement and Modernisation	Increase charges for Archives services and materials	Increase the charges for have not been reviewed or increased for many years doing so now will yield a relatively low sum.	Fees and Charges	1,800	
BIM-E03	Business Improvement and Modernisation	Shared Archives Service	Reduce budget in line with budget savings set by Flintshire for their contribution to the shared service. Likely to be achieved by reviewing current vacancies.	Service Change	7,200	
						961,313

Council Tax Sensitivity Analysis

2023/24	Increase %	Increase in Band D £	Proposed Band D £	Total Funding £000	Inc/Dec in Funding £000	
	0.00%	0.00	1,436.76	58,734	0	
	0.50%	7.18	1,443.94	59,028	294	
	1.00%	14.37	1,451.13	59,322	588	
	1.50%	21.55	1,458.31	59,616	882	
	2.00%	28.74	1,465.49	59,910	1,176	
	2.50%	35.92	1,472.68	60,204	1,470	
	2.75%	39.51	1,476.27	60,351	1,617	
2022/23 Increase	2.95%	42.38	1,479.14	60,468	1,734	-500
	3.00%	43.10	1,479.86	60,498	1,764	
	3.25%	46.69	1,483.45	60,645	1,911	
15 Year Average	3.31%	47.56	1,484.31	60,680	1,946	-288
	3.50%	50.29	1,487.04	60,792	2,058	
7 Year Average	3.77%	54.17	1,490.92	60,950	2,217	-18
Current Assumption	3.80%	54.60	1,491.35	60,968	2,234	
	4.00%	57.47	1,494.23	61,086	2,352	
2020/21 Increase	4.30%	61.78	1,498.54	61,262	2,528	294
4 Year Average	4.35%	62.50	1,499.26	61,291	2,558	323
	4.50%	64.65	1,501.41	61,380	2,646	
	5.00%	71.84	1,508.60	61,674	2,940	
	5.50%	79.02	1,515.78	61,968	3,234	
	6.00%	86.21	1,522.96	62,261	3,528	
2019/20 Increase	6.35%	91.23	1,527.99	62,467	3,733	1,499
	6.50%	93.39	1,530.15	62,555	3,822	
	7.00%	100.57	1,537.33	62,849	4,116	

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Council Tax Level for 2023/24: Well-being Impact Assessment Report

This report summarises the likely impact of the proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

Assessment Number: 1139

Brief description: Proposal is to increase Council Tax by 3.8%

Date Completed: 11/01/2023 14:16:42 Version: 1

Completed by: Steve Gadd

Responsible Service: Finance and Property Services

Localities affected by the proposal: Whole County,

Who will be affected by the proposal? All residents who pay Council Tax

Was this impact assessment completed as a group? Yes

Summary and Conclusion

Before we look in detail at the contribution and impact of the proposal, it is important to consider how the proposal is applying the sustainable development principle. This means that we must act "in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs."

Score for the sustainability of the approach

3 out of 4 stars

Actual score : 33 / 36.

Summary for each Sustainable Development principle

Long term

Proposed increase is to ensure that the Council can continue to improve services and invest in people and infrastructure. The proposals form part of a medium term budget process to manage resources.

Prevention

